*Afon Iechydwriaeth*

# G R A S;

NEU,

# SYLWIAD BYRR

AR Y RHAN GYNTAF

O'R

BEDWARYDD ADNOD

O'R

CHWECHFED A DEUGAIN

# S A L M,

MEWN FFORDD O

# G A N.

*Y mae afon, a'i ffrydiau a lawenhant ddinas Dduw...*

DAFYD[D]

14. 3.

*CAERFYRDDIN:*

ARGRAPHWYD GAN IOAN EVANS,

Y-PRIOR.——1798.

A

# Afon Iechydwriaeth Grâs, &c.

1 DUW, os rho'est ddawn i ganu,
Rho etto nerth a grym,
Goleua neall tywyll,
Onid ê ni allai ddim; *Esay* 60. 14.
I ganu am yr afon
Rinweddol, hardd ei lliw,
'R hon sydd â'i ffrydiau'n addas
I loni dinas Dduw.

2 Mae *Dafydd* yn sôn am afon *Salm* 65. 9.
I olchi'r brwnt yn lân,
Mae wedi canu am dani,
Fwyn gu nefolaidd gân;
Mae'n well nâ dwr *Siloam*,
Gwell nâ'r Iorddonen sy 2 *Bren*. 5. 10.
Yn golchi *Naaman* glwyfus,
Mae'n well nâ *Cedron* ddu.

3 'Dyw *Niger Rhein* a *Danûb*, *Salm* 107. 33.
Neu *Po* sy'n *Italy*,
I haeddu ei chyffelybu,
Un gronyn atti hi;
'Dyw *Abana* a *Pharpar*, 2 *Bren*. 5. 12.
*Amaason* lydan fawr,
Ond nentydd bach wnaeth Iesu,
At ddi-sychedu'r llawr.

4 'Dyw'r môr nâ'r hên Iorddonen,
A orfu droi yn ol, *Salm* 114. 3.
Ddim iddi ei chydmaru,
Mae hon o bôl i bôl,

A'i hyd o drag'wyddoldeb,
I drag'wyddoldeb maith,
Na fedr neb fynegu,
Un tafod, llwyth, nac iaith.

5 O dewch i'r dyfroedd tawel,
I drachtio o'r afon bêr,
Sy wedi tarddu allan,
Ymhell tu hwnt i'r sêr;
Mae'n ddisglair fel y grisial, *Dat.* 22. 1.
A honno welodd *Io'n*,
Yn tarddu maes yn rhyfedd,
Tan orsedd Duw a'r O'n.

6 Cariad a hyfrydwch, *Salm* 36. 8
Oedd ei henw cyntaf gid,
Oedd gyd â meibion dynion
Ymhell cyn seilio'r byd;
Ond pan y daeth hi lifo
Dros wyneb daear las, *Diar.* 8. 31
Fe'i gelwir Iechydwriaeth,
A hyfryd afon grâs.

7 Mae'n sefyll yn ei chanol,
A hefyd ar bob llaw,
Rinweddol Bren y Bywyd, *Dat.* 22. 2.
Tu yma a thu draw;
Yn llawn o ffrwythau hefyd,
A iechyd yn ei ddail; *Ezec.* 47. 12.
Trugaredd a maddeuant,
Holl haeddiant Adda'r ail.

8 Mae hon â'i ffrydiau gloyw
Yn rhedeg yn y bla'n,
'R hên addewidion hyfryd,
A doniau'r Yspryd Glân;
Dechreuodd ffrydio yn *Eden*, *Gen.* 3. 15.
Daeth yno ei changen hardd,
Fe olchwyd *Adda* ynteu,
Yn foreu yn yr ardd.

9 Waeth

9 Waeth bod yr afon yma,
Yn golchi'r brwnt yn lân,
Daeth *Abel* i offrymmu — *Gen.* 4. 8.
Blaen ffrwyth ei ddefaid mân;
Fe'i cannwyd ynteu ynddi,
Mor wynn a'r lliain main,
Er dioddef angeu digllon,
Dan ddwylo creulon *Cain*.

10 A hwythau'r hên ferthyron,
Fu'n ffyddlon yma i gyd,
Yn dioddef dan frenhinoedd
Ac ymerawdwyr byd; — *Act.* 4. 26.
Amrywiol boenau chwerw,
A'u llosgi yn ulw mân,
Ond dwr o'r afon yma,
A doryff rym y tan.

11 Ca'dd *Enoch*, *Abra'm*, *Isaac*, — *Gen.* 5. 24.
A *Jacob* gyd â hwy,
A *Noah* yr hên bregethwr, — 2 *Pedr* 2. 5.
A miloedd maith a mwy;
Ca'dd *Dafydd* a *Jeremiah*,
I drachtio'r afon wen,
A *Job* yn lle cornwydon, — *Job* 2. 7.
Ca'dd goron ar ei ben.

12 Fe welodd yr hên *Ezeciel*
Yr afon hon unwaith, — *Ezec.* 47. 13.
Yn llanw De a Gogle',
Gorllewin Dwyrain faith;
A'r pysgod, maent mor amled,
Yn nofio yno'n awr,
A'r rheini'r un natturiaeth
A physg y moroedd mawr.

13 Fe welodd *Esay*'r afon, — *Esay* 27. 12.
Fe ganodd am dani'n glir, — *Esay* 33. 21, &c.
A'i ffrydiau mawrion llydain,
Mewn dyrus anial dir;

Hi

Hi olchodd fil o filoedd,
Do, fel yr eira gwyn,
Cyn iddi ffrydio allan
Ar ben *Calfaria* fryn.

14 Tu yma, ar lan yr afon,
Mae dinas hardd ei rhyw, *Esay* 1. 26.
Yr enw sydd iddi'n gymmwys,
Yw sanctaidd eglwys Dduw; 1 *Cor.* 3. 2.
Marsiandeth mawr sy o'r ddinas,
Trwy'r hên *Boreas* o'r,
I dre' *Caersalem* newydd,
Sy'r ochr draw i'r môr.

15 Wel doed y *Negroes* duon
I'r afon yn ddi-fraw,
Hi golch hwy oll yn wynion,
Fel eira yn *Salmon* draw, *Salm* 68. 14.
Na welir un brycheuyn,
Na mann, na spottyn du,
Yn gymmwys i ymddangos, *Dat.* 14. 5.
O flaen yr orsedd fry.

16 Er iddi olchi miloedd, *Dat.* 22. 1.
Mai'n para'n loyw o hyd,
Fe beru rhinwedd ynddi
Tra paro byd yn fyd;
A phan êl y greadigaeth *Mica* 7. 12.
I gyd yn ulw mân,
Fe gana rhai yn groyw,
Am yr afon loyw lân.

17 Daw rhai o dir *Assyria*
I gael ei golchi'n wyn,
Fe glywyff gwlad yr *India*, *Esay* 27. 13.
Am ben *Calfaria* fryn;
Daw rhai sy'n wasgaredig,
O dir yr *Aipth* i ma's,
I ganu'r gân drag'wyddol
Am waredigol râs.

18 Daw plant afradlon adre',
Er iddynt fod yn ffol,
O wlad y *Gadareniaid*,
Saif ewin bach yn ol;
Yn nhŷ eu tad mae bara, *Luc* 15. 13—23.
Digonedd i bob gradd,
A'r llo paſgedig hefyd
Sydd yno wedi'i ladd.

19 Cant wiſgo dillad newydd,
Heb arnynt fraw na phoen,
A hefyd gannu ei gynnau, *Dat.* 7. 14.
Yn nwyfol waed yr Oen;
Y pentewynion duon,
Achubodd Ieſu o'r tân, *Zec.* 3. 2.
Ar eu dyfodiad adre',
Telynau'r nef a gân.

20 Wel dyma'r hyfryd afon,
Sy'n gyſon yn glanhau,
Er i'r mab hyna ddigio,
Rhaid etto lawenhau; *Luc* 15. 2, 8.
O waith yr hwn fu farw,
Drachefn ddaeth yn fyw;
Fe fydd llawenydd cyſon,
Ymhlith angylion Duw.

21 'Does angel yn y nefoedd,
Nac un rhyw ſeraph pûr,
Heb ganu gyd â'r dyrfa,
Am dyllau'r hoelion dûr;
'D aeth ſaint erioed i'r bywyd,
A glywyd am dano ſôn,
Heb drachtio'r Iechydwriaeth,
Bwrcaſodd gwaed yr O'n.

22 Ni all babanod bychain,
Fu farw yn y bru,
Cyn rhoi erioed anadliad,
Ar wyneb daear ddu;

I gael

I gael eu cymmeradwyo,
Ond ar gyfammod gwell,
A thrachtio o'r afon darddodd
Yn nhrag'wyddoldeb pell.

23 'Does enw dan y nefoedd,
Nac un rhyw ddyfais bûr,
A glywyd fôn am dani,
Dros wyneb môr na thir;
I olchi'r *Ethiop* dua,
Fel eira gwyn ei liw,
Ond dwr o'r afon darddodd
O dan orfedd-faingc Duw.

24 O'r dorf nas gellir rhifo,
Sydd wedi cario'r dydd,
Fu yma mewn caethiwed,
Ond 'nawr â'u traed yn rhydd!
Am rinwedd dwr yr afon,
Yn canu uchel gaingc,
I Dduw a'r Oen yn rhyfedd,
O flaen yr orfedd-faingc.

25 Anfeidrol yw'r gwahaniaeth,
Sydd rhyngom a'r nefol gôr,
Nyni fy'n cael defynnau,
A hwythau'n trachtio'r môr;
Ni fydd mewn 'ftormydd uchel,
A rhyfel ar bob llaw,
A fwn taranau yma,
Ond llais telynau draw.

*DIWEDD.*